**Cyd-gyfarfod y Cynghorau**

**Cofnodion Anghyfyngedig** y cyfarfod a gynhaliwyd am 10.00 a.m. ddydd Iau 25 Tachwedd 2021 yng Nghanolfan Halliwell, Campws Caerfyrddin

Yn bresennol:

Yr Hybarch Randolph Thomas (Cadeirydd)
Tony Ball
Andrew Curl
Siwan Davies
Tania Davies
Eifion Griffiths
Yr Athro Medwin Hughes
Dr Conny Matera Rogers
Rowland Jones
Vanessa Liverpool
Arwel Ellis Owen
Matthew Peake
Liam Powell
Victoria Provis
Dr Stuart Robb
Geraint Roberts
Nigel Roberts
Emlyn Schiavone
Dr Liz Siberry
Maria Stedman
Deris Williams

Hefyd yn bresennol:

Sarah Clark, Clerc y Cyngor
Yr Athro Dylan Jones, Dirprwy Is-Ganghellor
Yr Athro Catrin Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Academaidd)
Shône Hughes, Pennaeth Staff
Steve Baldwin, Cyfarwyddwr Adnoddau a Chynllunio Busnes
Gavin Bessant, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol
Jane O'Rourke, Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol
Catrin Beard (Cyfieithydd)
Margaret Williams (Ysgrifennydd)

| Rhif y cofnod | Prif bwyntiau trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| 21.60<br>Ymddiheuriadau am absenoldeb | DERBYNIODD y Cynghorau ymddiheuriadau oddi wrth Justin Albert, Pam Berry, Margaret Evans, Uzo Iwobi, Dr Kerry Tudor. | |
| 21.61<br>Datganiadau o fuddiannau | DERBYNIODD y Cynghorau'r Datganiadau o Fuddiannau fel y'i nodir yn adroddiad y Clerc (JCO116). | |
| 21.62<br>Adroddiad y cadeirydd | DERBYNIODD y Cynghorau adroddiad y Cadeirydd (JCO117).<br><br>Adroddodd y Cadeirydd ar y cyfarfod diweddar gyda'r Gweinidog Addysg newydd. Roedd yr eitemau a drafodwyd yn cynnwys Bil TER (Cymru), yn arbennig pwysigrwydd ymreolaeth sefydliadol ac annibyniaeth y Comisiwn newydd.<br><br>Adroddodd y Cadeirydd bod Pam Berry wedi mynychu'r cyfarfod CUC Llawn ar ei ran lle'r oedd prif themâu'r drafodaeth wedi ffocysu ar adferiad economaidd ôl-Covid ac ôl-Brexit. | |
| 21.63<br>Adroddiad yr Is-Ganghellor | Mae'r eitem hon dan GYFYNGIADAU ac adroddir arni yng nghofnodion cyfyngedig y cyfarfod. | |
| 21.64<br>Adroddiad y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2021 (JCO120). | |
| 21.65<br>Cofrestr Risg Gorfforaethol | YSTYRIODD y Cynghorau'r Gofrestr Risg Gorfforaethol (JCO121), a gyflwynwyd i ARC ar 22 Tachwedd 2022.<br><br>Nododd aelodau bod y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn amlinellu'r risgiau allweddol sy'n wynebu PC a PCYDDS trwy ddatganiadau clir o ganlyniadau a rheolaeth risg sy'n gysylltiedig ag amcanion strategol. Roedd y Gofrestr Risg wedi'i hadolygu a diweddaru ers ei chyflwyno'r tro diwethaf i'r Cynghorau i sicrhau ei bod yn adlewyrchu'r amgylchedd gweithredu cyfredol.<br><br>Adroddodd y Clerc bod:<br>• pedwar risg wedi'i harchifo;<br>• mae dwy risg wedi'i hychwanegu, yn gysylltiedig â strategaeth cyfrwng Cymraeg a Chydymffurfiaeth â'r CMA;<br>• mae'r risg sy'n gysylltiedig â phartneriaethau cydweithredol wedi'u hehangu'n sylweddol a'u diwygio i adlewyrchu risg partneriaeth ryngwladol yn fwy cyffredinol; | |

| Rhif y cofnod | Prif bwyntiau trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| | • roedd y datganiad risg wedi'i ddiwygio ar gyfer saith risg pellach;<br>• roedd y risg cysylltiedig â chydymffurfiaeth statudol ystadau wedi'i thrafod yn fanwl gan ARC yng nghyd-destun argymhellion archwiliad mewnol, | |
| 21.66<br>Adroddiad y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu (PELI) | YSTYRIODD y Cynghorau adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a gynhaliwyd 22 Hydref 2021 (JCO122).<br><br>CYMERADWYODD Y Cynghorau'r canlynol:<br><br>• yr argymhelliad y dylid gohirio'r GER ar gyfer PCYDDS nes 2022/23;<br>• bod y cynllun cyfaill arfaethedig ar gyfer llywodraethwyr newydd yn cael ei ardystio;<br>• parhau â'r rhaglen dreigl o recriwtio yn y gwanwyn 2022, gan ddefnyddio'r un deunyddiau hysbysebu (wedi'u diweddaru) a phrosesau a ddefnyddiwyd ar gyfer ymarfer recriwtio'r haf 2021, wedi'u hategu gan weithgarwch mwy penodol yn ymwneud ag amrywiaeth gynyddol;<br>• bod y sgiliau/profiad a dargedir yn addysg uwch (yn arbennig sicrhau ansawdd addysg uwch ac addysg uwch ryngwladol); cyfrifeg, archwilio a phensiynau; a phrofiad busnes/masnachol;<br>• bod y swyddi gwag presennol ar gyfer aelodau cyfetholedig y Pwyllgor Academaidd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cael eu cynnwys yn benodol yn yr ymarfer recriwtio;<br>• bod cyfnodau yn y swydd yr aelodau Cyngor hynny sy'n ymddeol ym mis Gorffennaf 2022 yn cael eu hymestyn i gynnwys dathliadau Deucanmlwyddiant ym mis Awst 2022;<br>• penodiad llywodraethwr annibynnol fel cyswllt gydag Undeb y Myfyrwyr. | |
| 21.67<br>Adroddiad blynyddol cwynion | YSTYRIODD y Cynghorau'r Adroddiad Blynyddol Cwynion (JCO123), a gyflwynwyd i PELI ar 22 Hydref 2021.<br><br>Nododd yr aelodau mai dyma oedd yr adroddiad blynyddol cyntaf ar gwynion yn unol â gofynion Cod Rheolaeth Ariannol CCAUC a darparodd wybodaeth ar gwynion a gafwyd rhwng Mai a Hydref 2021 ynghyd â chrynodeb o gwynion a gafwyd yn ystod 2020/21 yn ei gyfanrwydd. Gwnaeth y Clerc grynhoi elfennau allweddol yr adroddiad a drafodwyd gan NGC.<br><br>Rhoddodd y Dirprwy Is-Ganghellor ddiweddariad i'r aelodau ar ymateb y Brifysgol i gŵyn diweddar gan fyfyriwr i'r OIA. Roedd y Brifysgol wedi ymateb i gais yr OIA am wybodaeth bellach ac roedd yn aros am benderfyniad terfynol yr OIA.<br><br>Cymeradwyodd aelodau waith swyddogion a staff am y ffordd roeddynt wedi cefnogi myfyrwyr ac ymateb i'w pryderon a materion. Nododd y Llywydd Myfyrwyr bod yr adran Gwasanaethau | |

| Rhif y cofnod | Prif bwyntiau trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| | Myfyrwyr wedi bod yn hanfodol wrth gefnogi myfyrwyr yn ystod y pandemig. Nododd aelodau'r ARC bod adolygiad gan archwilwyr mewnol o ymateb y Brifysgol i'r pandemig hefyd wedi cymeradwy'r ymateb. | |
| 21.68 Cymeradwyo Cofnodion Cydgyngor y Prifysgolion 30/09/2021 | CYMERADWYODD y Cyngor gofnodion cyfarfod Cydgyngor y Brifysgol a gynhaliwyd ar 30 Medi 2021 (JC0124). | |
| 21.69 Pwyntiau gweithredu sy'n codi o gofnodion y cyfarfod diwethaf | DERBYNIODD y Cynghorau'r pwyntiau gweithredu a ddiweddarwyd o'r cyfarfod diwethaf (JCO125). | |
| 21.70 Dyletswydd PREVENT Adroddiad Blynyddol 2020/21 | CYMERADWYODD y Cynghorau Adroddiad Blynyddol Dyletswydd Prevent ar gyfer 2020/21 (JCO126). | |
| 21.71 Adroddiad blynyddol y Pwyllgor Academaidd | DERBYNIODD y Cynghorau adroddiad blynyddol y Pwyllgor Academaidd (JCO127). | |
| 21.72 Adroddiad blynyddol y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu | DERBYNIODD y Cynghorau adroddiad blynyddol y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu (JCO128). | |
| 21.73 Adroddiad blynyddol y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad. | DERBYNIODD y Cynghorau adroddiad blynyddol y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad (JCO129). | |
| 21.74 Adroddiad ar Gamau Gweithredu'r Cadeirydd | DERBYNIODD y Cynghorau'r Adroddiad ar Gamau Gweithredu'r Cadeirydd (JCO130). | |
| 21.75 Datganiadau o Fuddiannau | Roedd un datganiad yn ymwneud ag eitem a recordiwyd yn y cofnodion cyfyngedig. | |
| 21.76 | DERBYNIODD y Cynghorau'r dyddiadau ar gyfer y cyfarfod nesaf. | |

| Rhif y cofnod | Prif bwyntiau trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf | Nododd y Clerc ei fod yn bosibl y bydd y diwrnod datblygu arfaethedig ar gyfer 29 Mawrth 2022 yn cael ei aildrefnu; byddai'r cadarnhad yn cael ei ddosbarthu ym mis Ionawr 2022. | |
| | | |

Terfynwyd y cyfarfod am 12.00